POLISI A STRATEGAETH

# Datganiad polisi addysg uwch: coronafeirws

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi prifysgolion a myfyrwyr sy'n delio ag effaith coronafeirws.

Cyhoeddwyd gyntaf:
4 Mai 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
4 Mai 2020

Cynnwys

- Trosolwg
- Rheoli recriwtio
- Cynnal sefydlogrwydd i fyfyrwyr
- Cefnogi myfyrwyr
- Gweithgarwch rhyngwladol
- Sefydlogrwydd ariannol i ddarparwyr
- Ymchwil ac arloesi

## Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn hynod ddiolchgar am y ffordd y mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi bod yn ymdopi â her yr achosion o COVID-19, ac yn gweithio i liniaru'r effeithiau ar fyfyrwyr a staff. Maent yn gweithio mewn ffordd sy'n dangos ymdeimlad o genhadaeth ddinesig, sy'n parhau i nodweddu addysg uwch yng Nghymru.

## Rheoli recriwtio

Rydym wedi dod i gytundeb â'r sector addysg uwch yng Nghymru fod angen mesurau dros dro i reoli'r cylch recriwtio ar gyfer blwyddyn academaidd 2020 i 2021. Er bod y sector yng Nghymru yn endid penodol yn rhinwedd ei hunan, mae hefyd yn rhan bwysig o gyd-destun addysg uwch ehangach y pedair cenedl, ac yn cynnwys partneriaethau cryf ar draws Ewrop ac yn fyd-eang. Edrychwn ymlaen at groesawu myfyrwyr, staff ac ymchwilwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig (DU), ac o bell, i'n prifysgolion yng Nghymru.

Argymhellir bod darparwyr addysg uwch yng Nghymru, ar y cyd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), yn cytuno ar niferoedd rhagolygol a fydd yn berthnasol i israddedigion o'r DU ac o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Ni fydd myfyrwyr ôl-raddedig, rhan-amser na rhai rhyngwladol yn cael eu cynnwys yn y mesurau. Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru wedi cyfrannu at gynigion sector y DU. Rydym yn cynnig mesurau, ar y cyd â CCAUC, a fydd yn sicrhau sefydlogrwydd yng nghylch recriwtio 2020/21 ac sy'n deg i fyfyrwyr.

Bydd CCAUC yn monitro perfformiad sefydliadau addysg uwch ac yn gwerthuso'r sefyllfa o ran derbyniadau i sefydliadau yng Nghymru. Byddwn yn disgwyl i'r sefydliadau gydymffurfio â'r cytundeb ar gyfer y sector a fydd wedi ei gefnogi gan ddatganiad ar arferion derbyn teg a ddatblygir gan y DU.

## Cynnal sefydlogrwydd i fyfyrwyr

Myfyrwyr sy'n ganolog i'r penderfyniadau a wnawn. Mae hwn yn gyfnod ansicr, ac rydym yn cydnabod bod cynnal sefydlogrwydd yn y sector yn hanfodol i gefnogi myfyrwyr sy'n trosglwyddo i addysg uwch.

Mae angen i fyfyrwyr gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chanllawiau o ansawdd da er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu dyfodol a'u datblygiad personol. Rydym wedi bod yn cydweithio ag UCAS a CCAUC i gryfhau'r broses derbyn eleni, a lleihau'r amhariad ar fyfyrwyr a sefydliadau addysg uwch. Bydd system glirio eleni yn cynnwys mentrau newydd sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gynnig dewis personol a chyflym i fyfyrwyr. Bydd hynny'n sicrhau eu bod yn gallu rheoli eu ceisiadau, a'r ffordd y maent yn mynd drwy'r broses derbyn.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ehangu mynediad, drwy ein gwerthoedd a'n system reoleiddiol. Mae sefydliadau addysg uwch yn ymrwymo i fuddsoddi mewn cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch drwy eu cynlluniau ar ffioedd a mynediad. Mae hynny'n arwain at amrywiaeth eang o ddarpariaethau a gweithgareddau sy'n ehangu mynediad ar hyd a lled Cymru.

## Cefnogi myfyrwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf y dylai mynediad i addysg uwch fod ar sail teilyngdod, ac nid ar allu unigolyn i dalu. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd costau byw i fyfyrwyr ac o ddarparu cymorth wedi'i dargedu i helpu'r rheini sydd ei angen fwyaf. Cymru yw'r unig wlad yn Ewrop sy'n cynnig cymorth cyfwerth ar gyfer costau byw, drwy grantiau a benthyciadau, i israddedigion amser llawn a rhan-amser, yn ogystal ag ôl-raddedigion. Mae'r cymorth hwnnw ar gael i fyfyrwyr o Gymru lle bynnag y maent yn astudio yn y DU. Mae cymorth grant ychwanegol ar gael i fyfyrwyr graddau meistr sy'n dychwelyd i brifysgolion yng Nghymru neu sy'n parhau i ddatblygu mewn prifysgolion yng Nghymru, mewn pynciau allweddol.

Mae cynlluniau bwrsariaeth GIG Cymru ar gael hefyd, sy'n pwysleisio ein hymrwymiad i gefnogi ac ariannu gweithlu'r GIG yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau addysg iechyd, gan gynnwys nyrsio, meddygaeth a deintyddiaeth. Mae'r cymorth hwn yn helpu i sicrhau ymrwymiad cyson i wasanaethu GIG Cymru a'n cymunedau.

Mae iechyd a llesiant staff a myfyrwyr yn destun pryder mawr ac rydym yn ymwybodol yn benodol o'r pryder ychwanegol a achosir gan y pandemig. Rydym yn croesawu Datganiad Sefyllfa CCAUC ar Iechyd a Llesiant, sy'n cadarnhau'r ymrwymiad i fodloni cydymffurfedd statudol ac i fynd y tu hwnt i hynny, a chyflawni disgwyliadau polisi llesiant Llywodraeth Cymru. Mae gan bob un o'n sefydliadau addysg uwch weithgareddau a mesurau ar waith i gefnogi llesiant staff a myfyrwyr, gan gynnwys eu hiechyd meddwl. Mae'r rhain yn cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru drwy CCAUC. Mae'n arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod anodd hwn fod cymorth ar gael i fyfyrwyr sydd wedi gorfod aros i ffwrdd o'u cartref. Gallent fod yn deimlo'n ynysig. Mae sefydliadau addysg uwch yn rhoi mesurau mewn grym ar gyfer cymorth ychwanegol i fyfyrwyr sydd yn byw mewn llety prifysgol fel eu prif fan preswylio.

Rydym wedi darparu cymorth ariannol ychwanegol i wasanaeth Iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol Cymru, sy'n cynnig cymorth iechyd meddwl i staff y GIG, gan gynnwys myfyrwyr meddygol, myfyrwyr nyrsio a myfyrwyr gofal iechyd sy'n gweithio i gefnogi'r GIG yn ystod y cyfnod heriol hwn.

## Gweithgarwch rhyngwladol

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu myfyrwyr rhyngwladol o bedwar ban y byd, ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y maent yn ei wneud at ein prifysgolion a'n cymunedau.

Rydym wedi ymrwymo i gydweithio â darparwyr, drwy Cymru Fyd-eang, i gefnogi gwaith rhynglwadol ein prifysgolion ac i feithrin cysylltiadau â chenhedloedd, rhanbarthau a sefydliadau eraill. Rydym wedi ariannu cynllun peilot hefyd, sef Cymru Fyd-eang Darganfod, i hybu profiadau teithio dramor tymor byr, yn enwedig ar gyfer y myfyrwyr hynny na fyddent fel arall wedi ystyried, neu wedi gallu ystyried, cyfleoedd o'r fath.

Mae mewnfudo yn fater i Lywodraeth y DU, ac rydym wedi codi pryderon ynghylch sut y gallai gofynion fisa a phrofi sgiliau Saesneg gael effaith negyddol ar fyfyrwyr rhyngwladol sydd methu cydymffurfio o ganlyniad i effeithiau COVID-19. Ym mis Mawrth, roedd Llywodraeth y DU wedi diweddaru ei chanllawiau ar fisâu er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i fyfyrwyr addysg uwch rhyngwladol yn y DU nad ydynt yn gallu dychwelyd adref ar hyn o bryd oherwydd COVID-19.

## Sefydlogrwydd ariannol i ddarparwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae'r sector addysg uwch yn ei gwneud at ein hymateb i'r argyfwng. Mae'n galonogol fod cynifer wedi bod yn fodlon cyfrannu eu hadnoddau - boed yn arbenigedd mewn ymchwil, llety, staff, myfyrwyr neu gyfleusterau eraill i helpu.

Mae sefydlogrwydd yn y sector yn flaenoriaeth allweddol yn y tymor byr i ganolig. Ac rydym yn cydnabod bod angen i'r sector fod yn ffyddiog y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cymorth. Rydym wedi rhoi llythyr grant dros dro i CCAUC ar gyfer 2020 i 2021.

Rydym yn cydweithio â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac â chenhedloedd eraill y DU i ailbroffilio taliadau am ffioedd dysgu ar gyfer darparwyr, er mwyn iddynt dderbyn mwy o arian yn y tymor cyntaf. Bydd hynny'n eu helpu i reoli'r risgiau ariannol dros gyfnod yr hydref.

Gall prifysgolion hefyd gael mynediad at gymorth ar gyfer y DU gyfan, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS), Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (CBILS), Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes Mawr yn sgil y Coronafeirws (CLBILS), a Chyfleuster Ariannu Corfforaethol COVID-19 (CCFF). Dylai darparwyr addysg uwch sy'n bodloni'r meini prawf a gyhoeddwyd ar gyfer CBILS neu CLBILS gysylltu â'u banc a dechrau gwneud cais am y cynllun.

Rydym yn cydnabod bod effaith ariannol yr argyfwng ar brifysgolion yn sylweddol, ac y gallai fod angen cymorth ychwanegol o'r llywodraeth ar ôl i sefydliadau addysg uwch wneud popeth o fewn eu gallu i sefydlogi eu sefyllfa ariannol. Byddwn yn parhau i weithio yn Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i opsiynau o ran cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer sectorau allweddol, gan gynnwys addysg uwch. Bydd gwneud hynny'n hanfodol ar gyfer adfer yr economi, datblygu lleol a rhanbarthol a democratiaeth lewyrchus a gwybodus.

Mae graddfa'r cymorth ariannol a allai fod angen y tu hwn i gyllidebau gweinyddiaethau datganoledig, ac rydym yn croesawu trafodaethau pellach â Thrysorlys Ei Mawrhydi am hyn er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi cyfarwyddyd cryf, sefydlog a strategol i'n sector cyfan.

## Ymchwil ac arloesi

Rydym yn cymeradwyo'r angen am Gyd-Dasglu Gweinidogol i ymdrin ag effaith COVID-19 ar sylfaen gwaith ymchwil, ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio'n agos ac mewn modd cydweithredol â Gweinidogion o'r Adran Addysg, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Cyhoeddwyd gyntaf**
4 Mai 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf**
4 Mai 2020